***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1499 (Cy. 275)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Rhagfyr 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Rhagfyr 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *13 Ionawr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), a pharagraffau 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 1984 p. 55. Diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004"). Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 a chan adran 11 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19); a diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 a chan adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**2**) Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984, a pharagraffau 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019) ("Gorchymyn 2009") ac mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru gan adran 54 o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

(**3**) Ychwanegwyd adran 14(7) gan Orchymyn 2009.